**YR ATODLEN**

**Y priffyrdd sydd i'w gwella**

Y briffordd heb ei mabwysiadu sy'n arwain at groesfan Tan Lan yn ei chyffordd â'r gefnffordd newydd.

Y gefnffordd bresennol yn ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain i Landdoged.

Y briffordd heb ei mabwysiadu sy'n arwain at groesfan Ty'n Ddôl yn ei chyffordd â'r gefnffordd newydd.

Y gefnffordd bresennol i'r gogledd o Fferm Tan Lan.

| **Y priffyrdd sydd i'w cau** | **Manylion y Priffyrdd Newydd** | | |
|---|---|---|---|
| | **Cyfeirnod** | **Yr Awdurdod Priffyrdd** | **Dosbarthiad** |
| Rhan o'r briffordd heb ei mabwysiadu sy'n arwain i groesfan Tan Lan o'i chyffordd â'r gefnffordd bresennol am bellter o 7 metr i gyfeiriad y gorllewin | A | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Diddosbarth |
| Rhan o'r Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif 16 sy'n arwain i groesfan Tan Lan o'i chyffordd â'r gefnffordd bresennol am bellter o 7 metr i gyfeiriad y gorllewin. | - | - | - |

| **Mynedfeydd Preifat sydd i'w cau** | **Cyfeirnod Mynedfeydd Preifat Newydd** |
|---|---|
| Mynedfa maes i Barsel OS Rhif 4262 o bwynt ar ffin orllewinol y gefnffordd 55 o fetrau i'r de o'i chyffordd â'r fynedfa breifat i Blas Madoc, y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod 1 ar y plan a adneuwyd. | - |
| Mynediad i gerbydau i ardd Croesfan Tan Lan a mynedfa maes i Barsel OS Rhif 0764 o'r briffordd heb ei mabwysiadu sy'n arwain at groesfan Tan Lan 24 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â'r gefnffordd bresennol, y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod 2 ar y plan a adneuwyd. | 2a<br>2b<br>2c |

| Mynedfeydd Preifat sydd i'w cau | Cyfeirnod Mynedfeydd Preifat Newydd |
|---|---|
| Mynedfa maes i Barsel OS Rhif 9529 o bwynt ar ffin orllewinol y gefnffordd 220 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r briffordd heb ei mabwysiadu sy'n arwain at groesfan Ty'n Ddôl, y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod 3 ar y plan a adneuwyd. | 4a |
| Mynedfa maes i Barsel OS Rhif 9544 o bwynt ar ffin orllewinol y gefnffordd 350 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r briffordd heb ei mabwysiadu sy'n arwain at groesfan Ty'n Ddôl, y rhoddwyd iddi'r cyfeirnod 4 ar y plan a adneuwyd. | 4a |